CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 5 RHAGFYR 2017

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maes – Cyng I C Thomas

Cynghorwyr
E R Hughes, A Hopcyn, R Thomas, W L Davies, D Jones, C Williams, K Jones, S Sage, E Lovgreen, C Larsen

1. Ymddiheuriadau

W R Owen, M Sarnacki, J W Parry, K Richards, B Owen

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Croesawyd y Cynghorydd Dawn Jones i'w chyfarfod cyntaf, ar ôl iddi ennill is-etholiad Ward Cadnant. Clywyd bod y Clerc yn gwella ar ôl llawdriniaeth, a dymunwyd adferiad buan iddi. Cytunwyd i anfon blodau ati. Clywyd hefyd bod y cyn-gynghorydd Brian Williams yn Ysbyty Eryri, ac y byddai'n gwerthfawrogi ymwelwyr.

10.11.2017	Agor Bore Coffi Sefydliad Prydeinig y Galon
11.11.2017	Cofeb Ben Twtil, Digwyddiad Coffau wrth y Senotaff
12.11.2017	Sul y Cofio
24.11.2017	Gwobrau MPCT, Canolfan Brailsford Bangor Diolchwyd i'r Cyn Faer, Brenda Owen, am fynychu ar ran y Maer
25.11.2017	Noson Fictorianaidd Biwmares Diolchwyd i'r Dirprwy Faer, Eiriona Hughes, am fynychu ar ran y Maer

3. Datgan Buddiant Personol

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant

4. Eitemau Brys. Er gwybodaeth, neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau.

Nid oedd unrhyw eitem frys, ond tynnwyd sylw at Arolwg Dyfodol Gwasanaethau Ieuenctid Gwynedd, a gwahoddwyd cynghorwyr i'w lenwi a'i roi i'r Cyng E R Hughes.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor 7 Tachwedd 2017

Penderfynwyd

Derbyn fel rhai cywir (**unfrydol)**

6. Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau, rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu (**unfrydol)**

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth **(unfrydol)**

8. Gefeillio

Yn CCB y Gefeillio, gofynnwyd i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb yn ôl dros y gefeillio, ac mewn cyfarfod cyhoeddus a alwyd gan y Cyngor ar 17/11, cytunwyd i ofyn am greu cyswllt rhwng y ddau gyngor efo ymweliadau grŵp yn cael eu hwyluso gan y Clerc ond yn cael eu trefnu gan y gwahanol gymdeithasau.

Penderfynwyd

Symud ymlaen fel hyn, gan adolygu'r sefyllfa mewn blynyddoedd i ddod, **(unfrydol)**

9. Eisteddfod Genedlaethol

Clywyd bod Gwynedd wedi cytuno i gynnal yr Eisteddfod yn 2021, ond bod Porthmadog hefyd wedi gwneud cais.

Penderfynwyd

Rhoi gwahoddiad i Elfed Roberts a swyddogion yr Eisteddfod i Wyl Fwyd Caernarfon ar Mai 12 2018, er mwyn dangos iddynt sut gallai'r Eisteddfod weithio (unfrydol)

10. Unllais Cymru

Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref

Clywyd bod nifer o glercod a chynghorwyr wedi trafod y 4 cwestiwn, ond oherwydd gwahanol faint y cynghorau, ni chafwyd unrhyw gonsensws. Ymgynghoriad ydoedd, heb unrhyw wybodaeth bellach.

Dyfarniadau Ymarfer Arloesol

Penderfynwyd

Ein bod yn cynnwys gwneud cais am Ddyfarniad yn y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf, er mwyn creu cais da a chasglu tystiolaeth o ymarfer arloesol, (**unfrydol)**

11. GIG Cymru

Er gwaethaf yr argraff bod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud i greu uned fasgwlaidd arbenigol yn Glan Clwyd,

Penderfynwyd

Ein bod yn gwahodd Peter Higson, Cadeirydd BIPBC i'r Cyngor, er mwyn rhoi cyfle iddo esbonio pam nad yn Ysbyty Gwynedd, sy'n ganolfan ragoriaeth yn y maes, y mae'r uned yn cael ei lleoli;

(**unfrydol)**

12. **Adolygiad CIC Gogledd Cymru**

Penderfynwyd

Yn wyneb y ffaith mai'r CIC sy'n cynrychioli pobl leol a chleifion, a'r pwysigrwydd o lenwi'r holiadur, cynigiodd y Cyng C Williams lenwi'r holiadur yn absenoldeb y Clerc, gan wahodd cynghorwyr i gyfrannu

(unfrydol)

13. **Cylch Cyfeillgarwch y Trefi Caerog**

Phenderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

14. **Llythyr diweddaru gan Heddlu Gogledd Cymru**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

(unfrydol)

15. **Cadw**

Penderfynwyd

Ein bod yn cysylltu â Lawrence Smith, yn mynegi ein hawydd i dreialu'r Pecyn yma, ynghyd ag ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn iddynt lle maen nhw arni o ran mabwysiadu'r cynllun.

(**unfrydol)**

16. **Unllais – Pwyllgor Arfon / Dwyfor**

Pwysleisiodd y Cyng T Owen fod croeso i bobl fynychu'r cyfarfodydd hyn i glywed beth sy'n mynd ymlaen. Arfon Jones fydd yno y tro nesaf.

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth(**unfrydol)**

17. **Rhybudd o Ddau Gynnig gan y Cynghorydd Cai Larsen**

1. Bydd Cyngor Tref Caernarfon yn codi pwyllgor gwaith penodol i ystyried sut gellir mynd ati i wella'r ddarpariaeth glanhau strydoedd a thorri a chasglu gwair yn nhref Caernarfon. Bydd y Pwyllgor wedyn yn mynd ati i gydlynu'r ddarpariaeth newydd

Penderfynwyd

Trefnu i gael Pwyllgor Gwaith Penodol/Tasg a Gorffen Y Maer (**Menai),** y Dirprwy Faer (**Peblig)**, y Cyng A Hopcyn (**Menai)**, y Cyng S Sage a'r Cyng D Jones (**Cadnant**), y Cyng C Larsen, y Cyng R Thomas a'r Cyng W R Owen (**Seiont),** y Cyng T Owen a'r Cyng J Parry (**Peblig)**

2. Mae Cyngor Tref Caernarfon yn enwebu y Cynghorydd Tudor Owen i gynrychioli Cyngor Gwynedd ar gorff llywodraethu Ysgol yr Hendre

Yn absenoldeb y Clerc, cysylltodd y Maer ag Adran Addysg Cyngor Gwynedd, a chael ar ddeall nad oedd y cynnig hwn yn ddilys.

Penderfynwyd

Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt wneud y canllawiau'n fwy clir (9 o blaid, 1 ymatal)

18. **Rhybudd o Gynnig Gynghorydd Cemlyn Williams**

Gofynnir i'r Cyngor ystyried opsiynau i leihau'r nifer o wylanod sydd o gwmpas y dref

Penderfynwyd

Bod hyn yn cael ei basio ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith Penodol/Tasg a Gorffen a bod yr elfen addysgol o berswadio pobl i beidio â bwydo'r gwylanod a chael busnesau i glirio byrddau'n fwy prydlon yn cael ei wneud gan HWB. ar hynny ac hefyd ystyried esiampl Ward Cadnant i ddefnyddio tylluan eryraidd i ddychryn y gwylanod

(**unfrydol)**

19. **Rhybudd o Gynnig Cynghorydd Richard Thomas**

Gofynnaf i Cyngor Tref sefydlu Pwyllgor Gwaith Penodol i gynnal arolwg o gyflwr llochesi bysiau gyda'r bwriad i drefnu trwsio'r llochesi presennol os oes angen a gosod llochesi mewn mannau newydd ble mae eu hangen

Phenderfynwyd

Gofyn i'r Pwyllgor Gwaith Penodol/Tasg a Gorffen ystyried i ba raddau y gellir defnyddio adnoddau'r Cyngor Dre i wneud pethau nad ydi Cyngor Gwynedd yn eu gwneud.

20. **Newyddlen Gwaith Ailwneud Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (**unfrydol)**

21. **Cwestiynau**

Nid oedd unrhyw gwestiynau, ond dymunodd y Maer Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan gyhoeddi bod Cronfa Nadolig y Maer yn awr ar agor.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:10.